TGAU

# CBAC TGAU
# HANES

# CWESTIYNAU CYFFREDIN

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

**C: Beth yw strwythur a ffocws y cwrs TGAU Hanes diwygiedig?**
A: Mae'r cwrs TGAU Hanes diwygiedig yn darparu astudiaeth strwythuredig o hanes yr oesoedd canol, modern cynnar a modern, gan sicrhau dealltwriaeth eang o wahanol gyfnodau. Mae'n pwysleisio "cynefin," gan annog myfyrwyr i archwilio hanes Cymru mewn cyd-destun byd-eang. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau meddwl yn ddadansoddol ac yn feirniadol drwy gyfuniad o arholiadau ac Asesiadau Di-arholiad, gyda mwy o bwysoli ar gyfer yr Asesiadau Di-arholiad i gynnig profiad asesu mwy cynhwysol.

**C: Beth yw'r pwysoli a'r gofynion amser ar gyfer pob uned?**
A: Mae Unedau 1 a 3 yn cael eu hasesu'n allanol a gyda'i gilydd maent yn cyfrif am 60% o'r cymhwyster cyffredinol. Mae pob un o'r unedau hyn yn gofyn am tua 36–40 o oriau dysgu dan arweiniad. Mae'r 40% sy'n weddill o'r cymhwyster yn seiliedig ar Asesiadau Di-arholiad. O hyn, mae un uned Asesiad Di-arholiad (Uned 2), sy'n werth 20% o'r cymhwyster, yn cael ei marcio gan CBAC, tra bod yr uned Asesiad Di-arholiad arall (Uned 4), sydd hefyd yn werth 20%, yn cael ei hasesu gan athrawon. Mae Unedau 2 a 4 yn gofyn am tua 24–30 o oriau dysgu dan arweiniad yr un, gan gynnwys amser i gwblhau tasgau'r Asesiadau Di-arholiad. Mae'r cwrs wedi'i lunio i gael ei gyflwyno dros 120–140 o oriau dysgu dan arweiniad ar draws dwy flynedd.

**C: Pa ddilyniant addysgu a argymhellir ar gyfer y fanyleb?**
A: Er bod y dilyniant yn hyblyg, argymhellir dysgu Uned 4 yn y flwyddyn olaf. Mae hyn yn caniatáu i ddysgwyr ailedrych ar gyfnod a astudiwyd yn flaenorol, gan gymhwyso eu sgiliau uwch o ran gwerthuso a dadansoddi hanesyddol. Erbyn y cam hwn, bydd dysgwyr wedi datblygu eu sgiliau AA2 ac AA3 drwy Unedau 1, 2 a 3, gan sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer mynd i'r afael â chymhlethdodau Uned 4. Mae’n bwysig nodi y bydd modd **cyflwyno Uned 4** am y **tro cyntaf** yn **Haf 2028**.

**C: Pa gymorth ac adnoddau addysgu fydd ar gael?**
A: Bydd y **Canllawiau Addysgu** ar gael o **fis Ionawr 2025** ymlaen ac mae'r canllawiau hyn yn fwy manwl na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'n ymgorffori Cynlluniau Gwaith i gefnogi athrawon ym mhob opsiwn. Bydd amrywiaeth o adnoddau digidol dwyieithog, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, gan ddechrau ddiwedd Hydref 2024. **Bydd yr holl ddeunyddiau ar gael yn llawn erbyn mis Awst 2025**. Bydd yr adnoddau hyn yn cynnwys unedau dysgu cyfunol rhyngweithiol, trefnwyr gwybodaeth, a gweithgareddau y gellir eu golygu i gefnogi addysgu.

Er nad yw gwerslyfrau newydd wedi'u cynllunio, bydd gwerslyfrau presennol yn cael eu mapio i'r fanyleb newydd i dynnu sylw at gynnwys perthnasol. Bydd gweithgareddau cyfoethogi, megis cysylltau i bodlediadau, darlleniadau ac adnoddau amgueddfeydd, hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg i wella'r profiad dysgu.

**C: A oes rhaid i mi addysgu pob cyfnod hanesyddol?**
A: Oes, mae'n ofynnol i chi addysgu un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern ar draws Unedau 1 i 3. Er y gall Uned 4 ailadrodd cyfnod hanesyddol, **rhaid i chi sicrhau nad oes unrhyw gynnwys yn cael ei ailadrodd ar draws yr unedau.**

A: Er enghraifft, gallai myfyrwyr astudio Owain Glyndwr tua 1354 – 1416 **(yr oesoedd canol)** ar gyfer Uned 1, Sbaen yn Goresgyn yr Asteciaid tua 1492 – tua 1525: astudiaeth achos ar wladychiaeth fodern gynnar **(modern cynnar)** ar gyfer Uned 2, a Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861– tua 1953 **(modern)** ar gyfer Uned 3, gyda chyfnod yr oesoedd canol, modern cynnar, neu fodern wedi'i ddewis ar gyfer Uned 4.



© WJEC CBAC Ltd 2025.

Fel arall, gallent astudio'r Llychlynwyr tua 750 – tua 1066 **(yr oesoedd canol)** ar gyfer Uned 3, Süleyman I tua 1520 – tua 1566: astudiaeth achos ar imperialaeth fodern gynnar **(modern cynnar)** ar gyfer Uned 2, Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif tua 1914 – tua 1959 **(modern)** ar gyfer Uned 1, ac, unwaith eto, dewis gyfnod yr oesoedd canol, modern cynnar, neu fodern ar gyfer Uned 4 (er y gellid addysgu'r deunydd yn nhrefn yr unedau os dymunir).

**C: A fydd papurau neu gwestiynau enghreifftiol yn cael eu darparu?**
A: Bydd **Deunyddiau Asesu Enghreifftiol** ar gyfer holl opsiynau'r cwrs yn cael eu **cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024.** Mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad digidol, gan alluogi dysgwyr i baratoi ar gyfer asesiadau ar-sgrin. Bydd CBAC hefyd yn cynnig adnoddau arweiniad i dywys myfyrwyr ac athrawon i ddeall disgwyliadau cwestiynau a strategaethau paratoi.

**C: Pryd fydd disgyblion yn gallu sefyll yr arholiadau a chyflwyno'r Asesiadau Di-arholiad?**
A: Bydd yr asesiadau cyntaf ar gael fel a ganlyn: Bydd **arholiadau Unedau 1 a 3 a chyflwyno Uned 2** yn digwydd yn **Haf 2027,** tra bydd modd **cyflwyno Uned 4** yn **Haf 2028.** Ar ôl hynny, bydd yr holl asesiadau'n cael eu cynnig ym mhob cyfres haf.

**C: Pa fathau o gwestiynau fydd yn cael eu gofyn yn yr arholiadau?**
A: Bydd Unedau 1 a 3 yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau atebion byr a chwestiynau traethawd. Mae'r rhain yn asesu gwybodaeth ffeithiol a sgiliau dadansoddi, gan sicrhau gwerthusiad cynhwysfawr o ddealltwriaeth myfyrwyr.

**C: Beth fydd fformat Asesiad Di-arholiad Uned 2, ac a oes gofynion technegol penodol?**
A: Bydd Asesiad Di-arholiad Uned 2 yn e-asesiad 3 awr, a gynhelir yn ystod **cyfnod o 12 wythnos rhwng mis Ionawr a mis Mawrth**. Mae modd ei gwblhau mewn un sesiwn neu mewn nifer o sesiynau byrrach. Bydd yr asesiad yn cael ei gyflwyno drwy'r llwyfan Surpass, gydag e-asesiadau ymarfer ar gael o **fis Rhagfyr 2025**. Bydd rhagor o ganllawiau a phecynnau eitem ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad yn cael eu darparu.

Am fwy o fanylion, mae canllaw Cwestiynau Cyffredin ar wahân ar gyfer Uned 2 ar gael yma.

**C: Pa gynnwys a ganiateir ar gyfer Uned 4?**
A: Ar gyfer Uned 4, gall canolfannau ddewis ailedrych ar gyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3 (e.e, yr oesoedd canol, modern cynnar neu fodern). Fodd bynnag, **ni ddylai'r testunau a ddewisir ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Mae'n ofynnol i ddysgwyr gynnal ymholiad hanesyddol yn seiliedig ar astudiaeth thematig o gyfnod parhaus o tua 75 i tua 100 mlynedd. Mae'r ffocws ar ddeall newid cymdeithasol drwy archwilio testunau hanesyddol sy'n gysylltiedig â naw thema wahanol. Nid yw'n ofynnol i'r testunau hyn ymdrin â'r cyfnod cyfan ond yn hytrach dylent archwilio penodau o newid o fewn y cyfnod amser a ddewiswyd.
Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar ranbarth daearyddol ynysoedd Prydain Fawr a/neu Iwerddon, a all gynnwys yr ardal gyfan neu ganolbwyntio ar leoliadau penodol.



© WJEC CBAC Ltd 2025.

**C: Sut y gall myfyrwyr sy'n perfformio ar lefel uwch gael eu herio yn y cwrs hwn?**
A: Gall myfyrwyr sy'n perfformio ar lefel uwch archwilio cysylltiadau thematig rhwng testunau, fel newidiadau cymdeithasol a pharhad dros amser. Maent yn cael eu hannog i ddadansoddi rolau strwythurau cymdeithasol, daearyddiaeth a chrefydd, gan ddyfnhau eu dealltwriaeth o themâu hanesyddol.

**C: A oes cyfleoedd cyfoethogi i ddysgwyr?**
A: Oes, gall myfyrwyr gael mynediad at weithgareddau dewisol fel podlediadau, darlleniadau pellach, ac adnoddau ar-lein. Mae Amgueddfa Cymru yn datblygu amserlenni teithiau ysgol a gweithgareddau rhithwir i ategu ffocws Uned 1 ar hanes Cymru, gan roi profiadau dysgu ychwanegol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r Canllawiau Addysgu yn cynnig gweithgareddau uwch dewisol er mwyn archwilio'n ddyfnach i'r testunau.

**C: A fydd y cynnwys sydd wedi'i labelu fel 'cefndir' yn cael ei brofi'n uniongyrchol?**
A: Na fydd. Mae cynnwys cefndirol yn darparu cyd-destun hanesyddol ond ni fydd yn cael ei asesu'n uniongyrchol. Mae'n cefnogi myfyrwyr i ddeall y themâu a'r digwyddiadau ehangach sy'n berthnasol i'w hastudiaethau. Er enghraifft, yn Uned 1.3 Cymru a'r Tuduriaid cynnar, tua 1485- tua 1547, mae dealltwriaeth gadarn o statws y Gymraeg yng nghanol y bymthegfed ganrif yn hanfodol i ddysgwyr ddeall effaith y cymalau iaith yn llawn yn y Deddfau Uno, er na fydd dysgwyr yn cael eu profi'n uniongyrchol ar statws yr iaith yn ystod y cyfnod hwn.

**C: A fydd pecynnau eitem neu fframiau ysgrifennu yn cael eu darparu?**
A: Bydd pecynnau eitem yn cael eu cynnwys gydag Asesiad Di-arholiad Uned 2, gan sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at y deunyddiau gofynnol ar gyfer eu hasesiad. Fodd bynnag, ni fydd fframiau ysgrifennu neu sgaffaldiau yn cael eu darparu, gan fod y cwrs yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau hanesyddol annibynnol. Gall athrawon ddefnyddio cynlluniau marcio i arwain dysgwyr sy'n perfformio ar lefel is.

**C: Pa gefnogaeth fydd CBAC yn ei chynnig i athrawon?**
A: Bydd CBAC yn cynnig cefnogaeth helaeth drwy sesiynau dysgu proffesiynol, asesiadau enghreifftiol, a dogfennau canllawiau. Bydd adnoddau yn cynnwys arweiniad i'r arholiad ac arweiniad i'r Asesiad Di-arholiad, deunyddiau dysgu cyfunol, a chynadleddau wyneb yn wyneb, yn enwedig ar gyfer Uned 4.

**C: Pa dasgau gweinyddol a therfynau amser ddylai athrawon fod yn ymwybodol ohonynt?**
A: **Rhaid cwblhau Asesiad Di-arholiad Uned 2 rhwng mis Ionawr a mis Mawrth**, heb fod angen unrhyw dasgau gweinyddol ychwanegol. **Rhaid cyflwyno marciau Uned 4 erbyn 5 Mai bob blwyddyn.** Bydd CBAC yn darparu ffeithlun sy'n amlinellu dyddiadau allweddol i helpu athrawon i reoli terfynau amser ar gyfer cymwysterau Gwneud-i-Gymru.



© WJEC CBAC Ltd 2025.